Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru Mesurau Marchnata

*Ffurflen Gais Lawn - Canllawiau Sut i Gwblhau*

# Cynnwys


Gwybodaeth ..... 3

Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein ..... 5
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein) ..... 5

Tudalen fewngofnodi Porth y Llywodraeth ..... 5
HAFAN ..... 6
Y Dudalen Ffurflenni ..... 8
Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Ffurflen Mesurau Marchnata – Dechrau Cais ..... 9

Parhau â Chais / Dechrau Eto ..... 10
Cyflwyniad ..... 14

Hysbysiad Preifatrwydd ..... 15

Manylion y Fenter ..... 16
Trosolwg o'r Prosiect ..... 18

Cynllun y Prosiect ..... 20

Cynllun y Prosiect – Cydweddu Strategol ..... 21
Cynllun y Prosiect - Addasrwydd y Buddsoddiad ..... 24
Cynllun y Prosiect – Cyflawni'r Prosiect ..... 25
Cynllun y Prosiect - Rheoli Risg ..... 28
Cynllun y Prosiect – Cynaliadwyedd Tymor Hir ..... 30
Cynllun y Prosiect – Rheoli'r Prosiect ..... 31
Cynllun y Prosiect – Gwerth am Arian ..... 33
Y Grantiau Mwyaf a Lleiaf ..... 37
Cynllun y Prosiect – Themâu Trawsbynciol ..... 38
Cynllun y Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau ..... 40
Cynllun y Prosiect – Ariannol a Chydymffurfio ..... 45
Pob Prosiect ..... 45
Rhestr Wirio o Ddogfennau Ategol ..... 47
Cyflwyno ..... 48

Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ..... 48
Datganiadau ac Ymrwymiadau ..... 49
Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno ..... 50
Ar ôl Cyflwyno'r Cais yn Llwyddiannus ..... 51

Beth sy'n digwydd nesaf? ..... 51
Enwau Cyswllt ..... 52



Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru


©Hawlfraint y Goron 2023


WG46851 ISBN Number: 978-1-80535-427-7

# Gwybodaeth

Mae'r canllaw hwn yn mynd â chi drwy'r camau i gwblhau a chyflwyno eich cais ar gyfer Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Cylch cyllid Mesur Marchnata i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein gan ddarparu manylion eich prosiect i Lywodraeth Cymru. Dim ond ceisiadau wedi'u dewis ar y cam EoI fydd yn destun gwerthusiad llawn i gael eu hystyried ar gyfer contract a dyfarnu grant.

Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus.  Bydd angen i chi hefyd ddarllen Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: canllawiau perthnasol i bob rownd | LLYW.CYMRU a Mesurau Marchnata (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru): canllawiau | LLYW.CYMRU gan fod y rhain yn cynnwys manylion llawn y cyfleoedd sydd ar gael yn ogystal â'r meini prawf cymhwysedd allweddol.

Yn achos prosiectau a gaiff eu dewis, penderfynir ar swm y cyllid a fydd ar gael i bob cais yn ystod y broses werthuso ac ni fydd y swm hwn yn cael ei gadarnhau hyd nes y bydd y prosesau asesu a gwerthuso wedi'u cwblhau.  Ni fydd swm terfynol y grant a ddyfernir yn uwch na'r swm a nodir yn y cais, a phan fo'n berthnasol bydd yn cael ei gapio ar £50,000.

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig trwy RPW Ar-lein.  Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg rhwng y dyddiad agor a'r dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer y cynllun. Ni fydd unrhyw gyfle am estyniad.

Ni fydd yn rhaid aros tan ddiwedd y cyfnod ymgeisio cyn cyflwyno ceisiadau. Argymhellir yn gryf y dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl.

Mae'r cynlluniau a'r dogfennau y mae'n rhaid i chi eu cwblhau a'u cyflwyno yn cynnwys:

- Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Cais Ar-lein Mesurau Marchnata
- 3 blynedd o Gyfrifon Ardystiedig.
- 3 blynedd o amcanestyniadau ariannol.
- Tystiolaeth o gyllid cyfatebol sydd ar gael (benthyciad banc, gorddrafft ac ati)
- Caniatâd Cynllunio os oes angen ac unrhyw gymeradwyaeth/cydsyniad arall
- Unrhyw ddyfynbrisiau a dderbynnir sy'n rhan o'r cais llawn.
- Tystiolaeth fod yr ymgeisydd wedi ei lleoli yng Nghymru ac yn fenter forol, bwyd môr neu ddyframaethu.

Ar gyfer ceisiadau gan fentrau sy'n llai na thair oed, bydd y cyfrifon sydd ar gael yn cael eu hystyried.

Os oes angen caniatâd cynllunio ar eich buddsoddiad, dylech gynnwys unrhyw ganiatâd cynllunio presennol, os yw ar gael. (Bydd angen tystiolaeth o ganiatâd cynllunio cyn gallu prosesu unrhyw hawliad grant).

Os bydd gwybodaeth ar goll byddwn yn gofyn amdani, ond bydd hyn yn arafu'r broses o asesu eich cais.

Pwysig: Os cewch broblemau gydag RPW Ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl i'r Cynnwys


# Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch y canllaw ar sut i gofrestru am ragor o wybodaeth. Mae modd gwneud y rhan fwyaf o unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i fanylion eich busnes ar-lein. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau mawr. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

# Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein)

## Tudalen fewngofnodi Porth y Llywodraeth

Mewngofnodwch ar eich Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os cewch broblemau neu os na allwch fynd i mewn i'ch cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl i'r Cynnwys

# HAFAN


Ar ôl mewngofnodi ar eich cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.




Yn yr adran 'Dechrau Ffurflen' ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar enw'r cynllun perthnasol y dymunwch wneud cais amdano. Bydd Ffurflen Mesur Marchnata: Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru ar gael yma tan ddyddiad cau'r ffenest.




**Neu** gallwch glicio ar y tab ‘**Ffurflenni**’ ar hafan RPW Ar-lein, fel y nodir isod:





Bydd hyn yn eich tywys at y dudalen ‘Ffurflenni’.

I newid yr iaith ar unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **Cymraeg** ar frig y sgrin, ar y dde ar wybodaeth RPW Ar-lein. Bydd hyn yn caniatáu i chi ddewis iaith eich Ffurflen Gais Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Y Dudalen Ffurflenni

Ar ôl i chi ddewis y tab 'Ffurflenni', byddwch yn gweld y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.





Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis y ffurflen y dymunwch ei chyflwyno.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Ffurflen Mesurau Marchnata – Dechrau Cais

## Cais Sengl

Mae'n syniad da darllen llyfryn canllawiau cyffredinol Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru a llyfryn cyfarwyddyd Chynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Mesurau Marchnata cyn cychwyn y ffurflen gais.





I ddechrau eich ffurflen gais, cliciwch ar y Botwm **Dechrau**.

Mae'r dudalen hon yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth cyn dechrau'r cais. Mae'n cynnwys dolen ar gyfer y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid pe bai angen, ynghyd â Manylion y Cwsmer a Dewisiadau Ar-lein sydd gennym ar eich cyfer. Dylech wirio a newid y rhain cyn cychwyn eich cais os ydynt yn anghywir.


# Parhau â Chais / Dechrau Eto

Ar ôl i chi ddechrau eich cais, gallwch ddewis ei adael a dychwelyd ato yn nes ymlaen. Os ydych yn dychwelyd at gais rydych wedi'i gychwyn eisoes, byddwch yn awr yn gallu Parhau (y botwm glas ar waelod y sgrin) neu Dechrau Eto trwy glicio ar y ddolen a ddangosir yn y sgrin lun hwn.





Cofiwch – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn ailosod yr holl gwestiynau a atebwyd gennych a bydd yn cael gwared â'r holl wybodaeth a ychwanegwyd.

Os ydych yn siŵr eich bod yn dymuno Dechrau Eto, cliciwch ar Ydw, neu fel arall cliciwch ar Na, fel y dangosir yn y sgrin lun hwn:




## Sawl cais

I ddechrau un o'ch ffurflenni cais, dewiswch o gwymplen y Prosiect perthnasol a chliciwch ar y Botwm **Dechrau.**



Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRONFA AMAETHYDDOL EWROP AR GYFER DATBLYGU GWLEDIG: EWROP YN BUDDSODDI MEWN ARDALOEDD GWLEDIG
THE EUROPEAN AGRICULTURAL FUND FOR RURAL DEVELOPMENT: EUROPE INVESTING IN RURAL AREAS

CRN:

English Allgofnodi

Hafan Fy Manylion Tir Gohebiaeth 11 Ffurflenni Contractau a Grantiau Bach

**Dechrau Cais** dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn i gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru - Mesurau Marchnata.** Dewiswch un o'r canlynol i ddechrau'r cais.

Dewiswch os gwelwch yn dda

Dewiswch os gwelwch yn dda

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru - Mesurau Marchnata** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.


Manylion y Cwsmer
**Enw Masnachu**
**Cyfeiriad**
**Côd Post**
**Rhif Ffôn**
**Cyfeiriad e-bost**
**Nifer y Partneriaid**

Dewisiadau Ar-lein
**E-bost ynte neges destun (SMS)**
**Cyfeiriad e-bost**
**Rhif ffôn symudol**

Dechrau Canslo

Dogfennau Canllaw Cysylltwch â ni Datganiad Hawlfraint Datganiad Hygyrchedd

Unwaith y byddwch wedi dechrau cais a'i adael a dychwelyd ato eto, byddwch yn mynd i'r sgrin 'Dewis Cais'. Yma gallwch barhau â'r cais rydych chi wedi dechrau arno (botwm glas ar ochr y sgrin wrth ymyl enw'r prosiect) neu gallwch ddewis cais arall i'w ddechrau trwy glicio ar y botwm **'Dechrau Cais newydd'.**





[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Cyflwyniad


Dyma'r dudalen gyflwyno sy’n rhoi gwybodaeth am Gynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Mesurau Marchnata.  Am fwy o fanylion am yr wybodaeth a ddarperir ar y dudalen hon, darllenwch [Canllawiau Cyffredinol WMFS ]ynghyd â [Canllawiau Mesurau Marchnata.]

Mae dolen i'r canllaw Sut i Gwblhau hwn ar frig y sgrin hon ar y chwith, a bydd yn eich cyfeirio at y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith fe welwch wahanol adrannau.  Mae croes goch yn arwydd nad ydych wedi mynd i mewn i bob adran eto, neu fod gwall o fewn yr adran(nau).  Bydd tic gwyrdd yn ymddangos ar ôl i chi lenwi pob adran a phan na fydd unrhyw wall.  Ceir nifer o fotymau llywio ar frig ac ar waelod y ffurflen.  Hefyd, os dymunwch symud yn ôl a blaen rhwng y Gymraeg a’r Saesneg, fe welwch fotwm ar gyfer gwneud hyn ar waelod y sgrin, ar y chwith, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.





Ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar y dudalen ‘Hysbysiad Preifatrwydd’ nodir eich hawliau a’r hyn y bydd angen i ni ei wneud â’ch gwybodaeth er mwyn prosesu eich cais.  Rhaid i chi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.




Ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl i'r Cynnwys]


# Manylion y Fenter

Ar y dudalen 'Manylion y Busnes/Corff' byddwch yn cyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â'ch busnes, er enghraifft sut fath o fusnes sydd gennych, unrhyw gyfeirnodau perthnasol, maint eich busnes/sefydliad a faint o staff sydd gennych (os yn berthnasol).  Defnyddir yr wybodaeth hon i'n helpu i weld a ydych yn gymwys i gael y grant dan sylw.

Mae'n rhaid i chi ateb mwyafrif y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.



Efallai y bydd rhai cwestiynau yn eich cymell i gyflwyno mwy o fanylion, gan ddibynnu ar yr atebion a roddwch, fel y dangosir isod:




Ar ôl i chi ateb yr holl gwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Trosolwg o’r Prosiect

Ar y dudalen ‘Trosolwg o’r Prosiect’ bydd yn rhaid i chi gyflwyno rhywfaint o wybodaeth gyffredinol am y Prosiect, fel enw’r prosiect, disgrifiad, cyfeiriad a’r dyddiadau cychwyn a gorffen.


Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.




Nodwch eich cod post yn y blwch a dewiswch y botwm **Chwilio am Gyfeiriad**.




Dewiswch eich cyfeiriad o blith y rhestr. Yna, rhaid i chi nodi dyddiad dechrau a dyddiad gorffen eich Prosiect. Gallwch naill ai deipio’r dyddiad eich hun neu gallwch glicio ar eicon y calendr, fel y gwelir isod. Rhaid cyflwyno pob hawliad erbyn 31 Mawrth 2024.



Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Prosiect

Mae adran nesaf y ffurflen ynghylch Cynllun eich Prosiect. Rhaid i bob ymgeisydd am gymorth grant gwblhau Cynllun y Prosiect. Templed safonol yw Cynllun y Prosiect, ac mae iddo ddeg pennawd.




Bydd yr wybodaeth a gyflwynwch o dan bob un o'r penawdau hyn yn cael eu defnyddio yn ystod y broses asesu a gwerthuso, ac yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â dyfarnu cymorth grant i'r prosiect.

**Noder y gall gorfod gofyn am ragor o wybodaeth arwain at oedi gydag arfarniad y cais, felly rydym yn argymell y dylech ddilyn y canllawiau yn ofalus er mwyn darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, pe bai unrhyw beth yn aneglur neu pe baem angen mwy o wybodaeth, byddwn yn cysylltu â chi.**

**Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i'r manylion a gyflwynir ym mhob adran fod yn briodol ac yn gymesur â chwmpas a graddfa'r prosiect arfaethedig.**

[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Cynllun y Prosiect – Cydweddu Strategol

Yr adran Cydweddu Strategol yw lle bydd angen i chi egluro sut y bydd y Prosiect arfaethedig yn gwneud cyfraniad at nodau ac amcanion strategol y Cylch Cyllido sef cefnogi mesurau marchnata ar gyfer cynnyrch pysgodfeydd a dyframaethu sydd wedi'u hanelu at:

- Dod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys:
    - Rhywogaethau gyda photensial marchnata.
    - Daliadau di-angen wedi'u glanio o stociau masnachol yn unol â mesurau technegol.
    - Cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu gan ddefnyddio dulliau sydd ag effaith isel ar yr amgylchedd.
    - Cefnogaeth i farchnata cynnyrch newydd.

- Hybu ansawdd a gwerth ychwanegol drwy hwyluso:
    - Y cais i gofrestru cynnyrch penodol a gallu cwmnïau pryderus i addasu i'r gofynion cydymffurfio ac ardystio perthnasol.
    - Ardystio a hyrwyddo cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu cynaliadwy, gan gynnwys cynhyrchion o bysgota[1]arfordirol ar raddfa fach, ac o ddulliau prosesu ecogyfeillgar.
    - Marchnata uniongyrchol a gwerthu cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu i gynnwys datblygu brand, strategaethau marchnata, marchnata ar y we a chyfryngau cymdeithasol, llwyfannau e-fasnachu.
    - Cyflwyno a phecynnu cynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth, profi'r farchnad, a grwpiau ffocws.

- Cyfrannu at dryloywder ac olrhain cynhyrchu a'r marchnadoedd yn ogystal â chynnal ymchwil, arolygon ac astudiaethau yn y farchnad.

Bydd angen i chi roi esboniadau clir am sut y bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y cynllun a dangos pam mae angen y buddsoddiad.

Dangosir yr adran Cydweddu Strategol yn y sgrin lun isod:

[1] Mae pysgota arfordirol ar raddfa fach (SSCF) yn golygu pysgota a wneir gan gychod pysgota o hyd cyffredinol o 11.99m neu lai a pheidio â defnyddio gêr/treillrwydi wedi'u tynnu.


Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru - Mesurau Marchnata
Cynllun y Prosiect - Cydweddu Strategol
Help
Cyflwyniad
Hysbysiad Preifatrwydd
Manylion y Fenter
Trosolwg ar y Prosiect
Cynllun y Prosiect
Cynllun y Prosiect - Cydweddu Strategol
Cynllun y Prosiect - Addasrwydd y Buddsoddiad
Cynllun y Prosiect - Cyflawni'r Prosiect
Cynllun y Prosiect - Rheoli Risg
Cynllun y Prosiect - Cynaliadwyedd Tymor Hir
Cynllun y Prosiect - Rheoli'r Prosiect
Cynllun y Prosiect - Gwerth am Arian
Cynllun y Prosiect - Themâu Trawsbynciol
Cynllun y Prosiect - Dangosyddion a Chanlyniadau
Ariannol a Chydymffurfedd
Rhestr Wirio o Ddogfennau Ategol
Cyflwyno
Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â *.
Y nodau a'r amcanion strategol yw cefnogi mesurau marchnata ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu sydd â'r nod o wneud y canlynol:
Dod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu
Hyrwyddo ansawdd ac ychwanegu gwerth
Cyfrannu at dryloywder a'r gallu i olrhain y broses gynhyrchu a'r marchnadoedd, yn ogystal â chyfrannu at arolygon, astudiaethau ac ymchwil i'r farchnad
Disgrifiwch y prosiect, ac egluro pam mae angen y buddsoddiad ar y fenter a'r manteision y bydd yn eu darparu. Pan fydd hynny'n briodol rhowch ddiagramau, delweddau neu ffotograffau i helpu i egluro'r prosiect.*
0 / 4000
Eglurwch sut bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y cynllun*
0 / 4000
Printio
English
Gadael

Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.  Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Prosiect - Addasrwydd y Buddsoddiad

Y dudalen addasrwydd y buddsoddiad yw lle bydd angen i chi ddarparu manylion er mwyn galluogi gwerthuso pa mor addas yw'r buddsoddiad ar gyfer cyflawni nodau'r prosiect.


Bydd angen i chi egluro sut mai'r buddsoddiad yw'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i gyflawni nodau'r prosiectau. A yw'r prosiect yn adeiladu ar unrhyw wersi blaenorol a ddysgwyd o raglenni blaenorol, ac a yw'n cynnig unrhyw ddulliau neu / ac atebion newydd a gwahanol ar gyfer y gweithgareddau arfaethedig.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Prosiect – Cyflawni’r Prosiect

Ar y dudalen ‘Cyflawni’r Prosiect’ byddwch yn cyflwyno’r cynllun gwaith y mae’r Busnes/Sefydliad yn bwriadu mynd i’r afael ag ef.

Yn yr adran hon, mae angen i chi ddarparu esboniad o beth rydych am ddefnyddio'r cyllid ar ei gyfer a phwy sydd ei angen i'w gyflawni gan gynnwys:

- Amserlen ar gyfer cyflawni holl weithgareddau a holl gamau eich prosiect.
- Disgrifiwch sut rydych yn bwriadu cyflawni eich prosiect.
- Gweithgareddau allweddol y bydd angen eu cynnal.
- Adnoddau y bydd eu hangen wrth eu gweithredu.
- Pwy fydd yn rheoli'r gwaith.
- Esboniwch sut cafodd yr amserlenni eu pennu.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi ateb y cwestiwn cyntaf, bydd yn rhaid i chi ychwanegu Gweithgareddau’r Prosiect.  Dewiswch y botwm **Ychwanegu Gweithgarwch** i fynd yn eich blaen.



Ar ôl i chi ddewis y botwm **Ychwanegu Gweithgarwch**, fe welwch y dudalen hon.



Yma, rhaid i chi nodi enw’r Gweithgarwch, rhoi disgrifiad ohono, a nodi’r dyddiad dechrau a’r dyddiad gorffen ar ei gyfer.  Defnyddiwch fotwm y **calendr** i ychwanegu eich dyddiadau. Ar ôl i chi gofnodi’r holl wybodaeth, dewiswch y botwm **Cadw ac Ychwanegu Un Arall** (er mwyn ychwanegu gweithgarwch arall), neu’r botwm **Cadw a Dychwelyd** (os ydych wedi gorffen).  Gallwch gofnodi cynifer o brosiectau ag y dymunwch.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Cynllun y Prosiect - Rheoli Risg

Ar y dudalen ‘Cyflawni – Risg a Rheoli Risg’ byddwch yn defnyddio tabl i grynhoi o leiaf bump o brif risgiau a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni’r prosiect a sicrhau allbynnau ac amcanion y prosiect. Yn cynnwys:

- Beth yw'r risg
- Beth yw’r risg a pha mor debygol yw o ddigwydd yn ystod cyfnod cyflawni’r prosiect?
- Beth fyddai’r goblygiadau i’r prosiect pe bai hyn yn digwydd?
- Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r risg?

Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiwn yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb ychwanegu o leiaf bump o risgiau.

Cliciwch ar **Ychwanegu Risg** i ddechrau cofnodi eich risg cyntaf.



Ar ôl i chi glicio ar y botwm hwn, fe welwch y sgrin gofnodi isod:



Ar ôl i chi gofnodi’r holl wybodaeth, dewiswch y botwm **Cadw ac Ychwanegu Un Arall** er mwyn ychwanegu gweithgarwch arall, neu’r botwm **Cadw a Dychwelyd** os ydych wedi gorffen.

Bydd yn rhaid i chi wneud hyn ar gyfer pump o risgiau gwahanol o leiaf.  Os na fyddwch yn nodi o leiaf bump o risgiau, bydd neges gwall yn ymddangos, a dangosir ar y sgrin fod yr adran heb ei chwblhau, fel yn y sgrin lun isod:




Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Cynllun y Prosiect – Cynaliadwyedd Tymor Hir


Y dudalen cynaliadwyedd hirdymor yw lle rydych chi'n esbonio, gan gynnwys tystiolaeth, sut y bydd y buddsoddiad disgwyliedig yn cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd hirdymor y fenter.  Gan gynnwys sut y gallai'r buddsoddiad annog buddsoddiadau yn y dyfodol.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Cynllun y Prosiect – Rheoli’r Prosiect

Ar y dudalen ‘Rheoli’r Prosiect’ bydd yn rhaid i chi gyflwyno’r wybodaeth ganlynol am reoli’r Prosiect:

- Esboniwch sut mae gan y fenter yr adnoddau a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus a phwy fydd yn rheoli'r gwaith.
- Rhoi manylion y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal wrth weithredu'r prosiect i sicrhau ei lwyddiant, e.e. hyfforddiant a gynhaliwyd, cyngor sydd ei angen, ac ati.



Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Prosiect – Gwerth am Arian

Ar y dudalen 'Gwerth am Arian' byddwch yn cyflwyno gwybodaeth am gostau a dyfynbrisiau'r Prosiect.

Er mwyn llenwi'r adran hon rhaid i chi ddarllen 'Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus: Nodiadau Canllaw Technegol' Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – 2014-2020 cyn ysgwyddo unrhyw gostau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

Nodiadau Canllaw Technegol ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus – Cofrestr a Chofnod

Yn yr adran hon, dangoswch sut mae cyfanswm costau'r prosiect wedi eu cyrraedd drwy ddarparu dadansoddiad manwl o'r gwariant arfaethedig. Rhaid i chi gynnwys yr holl wariant arfaethedig yn erbyn y categori perthnasol gyda disgrifiad. Cofiwch mai'r costau sydd wedi'u rhestru yn yr adran hon yw'r costau y bydd y prosiect yn cael eu cymeradwyo arnynt os ydynt yn gymwys.

Ni fydd y ffigwr grant terfynol a ddyfarnwyd yn uwch na'r hyn a ddangosir yn y Cais Datganiad o Ddiddordeb.

Yn yr adran hon:

- Rhaid i chi gynnwys yr holl wariant arfaethedig ac esbonio sut rydych wedi cyfrifo cyfanswm costau bras y prosiect.


- Esboniwch sut y cafodd costau'r prosiect eu hystyried yn rhestymol, gan ystyried cwmpas, graddfa ac amserlen y cynigion. Dangos sut y mae'r costau wedi'u pennu i fod yn rhesymol drwy gyfeirio at ddyfynbrisiau; costau safonol gweithgareddau blaenorol; cymariaethau o fewn y diwydiant megis tablau QS neu ddadansoddiad technegol annibynnol.


- Os yw hynny'n briodol, dangoswch eich bod wedi ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer cyflawni amcanion y prosiect ac esboniwch sut a pham y penderfynwyd ar yr opsiwn a ddewiswyd.

- Cyflwynwch dystiolaeth o'r dyfynbrisiau a gafwyd, neu gopïau o ddyfynbrisiau os oes rhai ar gael.

Dangosir y dudalen ‘Gwerth am Arian’ gyntaf yn y sgrin lun isod.


Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 255, nid nifer y geiriau. Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.









Cliciwch **Ychwanegu EitemGwariant**.

Dewiswch yr **Eitem** o'r rhestr. Gallwch naill ai chwilio trwy’r rhestr am yr eitem dan sylw neu gallwch ddechrau teipio’r llythrennau cyntaf yn y bar chwilio a bydd y rhestr yn dod o hyd i eitemau cyfatebol.




Rhowch Gyfanswm y Gost neu Fanylion Maint ac Eitemau.






Mae gennych wedyn yr opsiwn i 'Cadw' neu 'Cadw a Dychwelyd' i'r dudalen Eitemau a Ddewiswyd.




Ar ôl i chi ddychwelyd at y dudalen Eitemau Ddewiswyd, dangosir eich Eitemau Gwariant.





[Yn ôl i'r Cynnwys]

## Y Grantiau Mwyaf a Lleiaf

Gwerth y grant lleiaf yw £500 a'r gwerth grant mwyaf y gellir gwneud cais amdano o dan gynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Mesurau Marchnata yw £50,000. Bydd y gwerthoedd a gofnodwyd yn y tabl Eitemau Ddewiswyd yn yr adran hon yn cael eu capio ar werth y Datganiad o Ddiddordeb.




Os yw nifer yr eitemau buddsoddi yn fwy na'r gwerth Uchafswm Grant a gymeradwywyd o'r Datganiad o Ddiddordeb, rhaid i chi gael gwared ar eitem.




Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm Nesaf.




[Yn ôl i'r Cynnwys]()


# Cynllun y Prosiect – Themâu Trawsbynciol

Ar y dudalen ‘Themâu Trawsbynciol’ byddwch yn cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â sut mae’r Prosiect arfaethedig yn cyfrannu at themâu trawsbynciol. Yn yr adran hon bydd yn rhaid i chi esbonio sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol a ganlyn:

- Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol
    - Galluogi canol ein trefi i fod yn fwy ystwyth yn economaidd trwy helpu busnesau i weithio ar y cyd, cynyddu eu cynnig digidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau darparu lleol
- Cyllid a Llywodraeth Leol
    - Hyrwyddo prynu cynnyrch a gwasanaethau Gwnaed yng Nghymru
- Y Newid yn yr Hinsawdd
    - Ymgorffori ein hymateb i’r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn
    - Grymuso cymunedau i gael mwy o gyfran mewn adfywio lleol

Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 2000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau. Cadwch hyn mewn cof wrth lenwi eich ffurflen.

Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.





Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau

Y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau yw lle byddwch yn darparu gwybodaeth am sut bydd y prosiect yn cyfrannu at y cynllun Dangosyddion Perfformiad (PIs).

Dyma'r dangosyddion a'r canlyniadau a fydd yn cael eu monitro yn sgil y buddsoddiad:

- Nifer y swyddi sy'n cael eu creu
- Nifer y swyddi sy'n cael eu diogelu
- Nifer y Marchnadoedd Newydd a nodwyd/ddiogelwyd
- Cynnydd mewn Refeniw a / neu werthiant arall
- Nifer yr arolygon / astudiaethau / ymchwil i'r Farchnad a gynhaliwyd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Bydd y ffurflen ar-lein yn rhestru'r Dangosyddion Perfformiad perthnasol a bydd yn rhaid i chi osod targedau yn erbyn o leiaf **ddau** o'r rhain.

Esboniwch sut byddwch yn cyrraedd y targed.

Esboniwch sut bydd y cynnydd yn cael ei fonitro, yn cynnwys unrhyw drefniadau i werthuso'r prosiect yn allanol pan fo angen.

Efallai na fydd eich prosiect yn cael ei gefnogi os nad ydych yn dewis o leiaf dau o'r rhestr o ddangosyddion lefel achos a ddangosir. Gellir dewis mwy na dau ddangosydd lefel achos.

Bydd angen i brosiectau ddarparu targedau i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r dangosyddion a ddewiswyd. Bydd angen torri'r targedau hyn i lawr fel y gellir mesur cynnydd ar wahanol bwyntiau yn ystod oes y prosiect (gweithrediad).

| **Enw Dangosydd Perfformiad** | **Diffiniad** |
|---|---|
| **Dangosydd Lefel Achos** | ***<u>RHAID ATEB O LEIAF 2 ddangosydd lefel achos</u>*** |
| Nifer o swyddi yn cael eu creu neu eu diogelu | Cyfanswm y swyddi parhaol sy'n cael eu creu neu eu diogelu drwy brosiectau â chymorth a fynegwyd cyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae'n ymwneud â chyflogaeth pan fydd y prosiect ar waith, h.y. nid yw'n cynnwys y rôl rheoli'r prosiect.<br>Ni ddylid cyfrif gwaith gwirfoddol ond mae hunangyflogaeth wedi'i gynnwys. Mae data'n cael ei gyfrifo yn FTE; felly, os yw swydd hanner amser bresennol yn cael ei thrawsnewid yn swydd lawn amser, gwerth y dangosydd yw 0.5 (ystyrir bod hanner swydd yn cael ei chreu). I gyfrif un swydd a grëwyd, dylai hyd y contract fod yn flwyddyn neu fwy (e.e. contract chwe mis ar 100% yw 0.5). |
| Nifer y Marchnadoedd Newydd a nodwyd / ddiogelwyd | Cyfanswm nifer y marchnadoedd newydd a nodwyd neu a ddiogelwyd yn seiliedig ar dystiolaeth o weithgaredd mewn darpar farchnadoedd.<br>Marchnad dramor neu ddomestig yw marchnad newydd lle nad oedd unrhyw weithgaredd gan yr ymgeisydd o'r blaen am gynnyrch neu wasanaeth penodol.<br>Marchnad wedi'i diogelu yw marchnad dramor neu ddomestig bresennol lle mae'r ymgeisydd eisoes yn darparu cynnyrch neu wasanaeth penodol a lle mae'r gwerthiant neu'r gweithgaredd hwnnw'n cael ei wella neu ei gynyddu.<br>Gall gweithgarwch mewn marchnad gynnwys ymchwil, marchnata, trafodaethau gyda phrynwyr, profion, gwerthiant.<br>Mae cyfanswm y marchnadoedd newydd neu wedi'u diogelu yn cael eu mesur yn erbyn llinell sylfaen o naill ai blwyddyn ariannol 2021-2022 neu gyfartaledd y blynyddoedd ariannol blaenorol 2019-2022. |
| Cynnydd mewn Refeniw a / neu werthiant arall | Mae'r cynnydd naill ai mewn refeniw a neu werthiant yn ôl maint neu werth yn seiliedig ar waelodlin o naill ai blwyddyn ariannol 2021-2022 neu gyfartaledd y blynyddoedd ariannol blaenorol 2019-2022. |
| Nifer yr arolygon / astudiaethau / ymchwil o'r Farchnad a gynhaliwyd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol | Y cynnydd yng nghyfanswm naill ai yr arolygon, astudiaethau a/neu ymchwil yn y farchnad a wnaed ar bwnc penodol gan y fenter o'i gymharu â llinell sylfaen naill ai blwyddyn ariannol 2021-2022 neu gyfartaledd y blynyddoedd ariannol blaenorol 2019-2022. |


Y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau yw lle byddwch yn darparu gwybodaeth am sut y byddwch yn cyrraedd targedau ynghyd â monitro a symud ymlaen i fodloni'r Dangosyddion Lefel Achos.

Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.


Ar y Tabl Dangosydd Lefel Achos, dewiswch fotwm glas 'Ychwanegu Dangosydd' i ddarparu ymatebion i'r Dangosyddion Lefel Achos fel y tabl uchod.





Dewiswch y Dangosydd Lefel Achos yr ydych am ymateb iddo o'r gwymplen sydd ar gael.



Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiynau ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.




***<u>RHAID I CHI DDANGOS TYSTIOLAETH O LEIAF 2 DDANGOSYDD LEFEL ACHOS</u>***




Ar ôl ychwanegu ymatebion Dangosyddion Lefel Achos, cadwch eich cofnodion a dychwelyd i'r brif dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau.




Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Prosiect – Ariannol a Chydymffurfio

Yn yr is-adran olaf o fewn Cynllun y Prosiect, bydd gofyn i chi gyflwyno gwybodaeth am elfennau ariannol ac elfennau cydymffurfio eich prosiect.

**Pob Prosiect**

Sut fyddwch yn bwriadu ariannu'r buddsoddiad yn ychwanegol at y grant (lle bo hynny'n berthnasol). Darparu tystiolaeth i gefnogi eich cais.

Beth yw’r angen ariannol am grant? Beth fyddai’n digwydd heb unrhyw gymorth.

Rhoi esboniad manwl o swm, pwrpas a chorff grant unrhyw arian cyhoeddus y mae'r fenter wedi'i dderbyn o fewn y flwyddyn hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol.

Wrth ateb yr uchod, rhaid i chi ystyried a chynnwys y canlynol yn eich esboniadau:

Esboniwch sut rydych chi, fel yr ymgeisydd, yn bwriadu cwrdd â’r rhwymedigaethau ariannol a’r rhwymedigaethau cydymffurfio sy’n ofynnol wrth gyflawni’r prosiect.

Nodwch y ffynonellau cyllid ar gyfer y cynnig hwn.  Rhaid i chi nodi a yw pob un o’r ffynonellau cyllid eisoes wedi’u sicrhau ynteu ai rhai amodol yn unig ydynt.  Mae yna bedair o elfennau y gallwch ymdrin â hwy yn y data ariannol:


- Cyfrif elw a cholled;
- mantolen;
- rhagolygon arian parod;
- a throsiant.

Nodwch eich rhagdybiaethau ynghylch trosiant a llif arian.

Rhestrwch eich ffynonellau ymchwil, os gwelwch yn dda.

Cyflwynwch asesiad yn ymwneud â pha mor fforddiadwy yw'r prosiect h.y. tystiolaeth y bydd modd i'r ymgeisydd ysgwyddo'r costau gyda'r cyllid grant.

Ar y dudalen 'Ariannol a Chydymffurfio' byddwch yn cyflwyno manylion ynglŷn â sut bydd y Prosiect yn cael ei ariannu, yn ychwanegol at unrhyw grant a roddir, a sut rydych yn bwriadu cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau angenrheidiol.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae'n rhaid i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys


# Rhestr Wirio o Ddogfennau Ategol

Ar y dudalen ‘Rhestr Wirio o Ddogfennau Ategol’ ceir rhestr o’r holl ddogfennau mae’n rhaid i chi eu cyflwyno gyda’ch cais, ynghyd â rhestr o rai o’r dogfennau eraill y gall fod angen i chi eu cyflwyno i ategu eich cais, gan ddibynnu ar eich prosiect.

Rhaid i'r holl ddogfennau **ategol gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau.**

Gofynnir i chi hefyd a yw'r fenter yn llai na 3 oed ac felly ni allwch ddarparu 3 blynedd o gyfrifon ardystiedig. Gofynnir i chi ddarparu'r holl gyfrifon sydd ar gael a gofynnir i chi dicio'r blwch i gadarnhau.

Rhaid i chi ddewis o leiaf un ffordd o gyflwyno dogfennau ategol er mwyn symud ymlaen i’r dudalen nesaf.




Ar ôl i chi orffen dewis eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Cyflwyno


## Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Bydd yr adran nesaf yn dangos unrhyw Gamgymeriadau o fewn eich cais, ynghyd â Chrynodeb o'ch cais.




Ni fydd y testun rydych wedi'i ysgrifennu yn unrhyw un o'r blychau testun mawr yn cael ei ddangos yn y fan hon, ond bydd i'w weld yn y crynodeb PDF a anfonir atoch trwy gyfrwng RPW Ar-lein ar ôl i chi gyflwyno eich cais yn llwyddiannus.

Mae'r sgrin lun canlynol yn dangos y neges a fydd yn ymddangos os bydd camgymeriadau. Tynnir eich sylw at y camgymeriadau hyn er mwyn i chi allu eu cywiro.





Ar ôl i chi wirio'r crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Datganiadau ac Ymrwymiadau

Rhaid i chi ddarllen yr adran ‘Datganiad ac Ymrwymiadau’ a welwch yn y sgrin lun isod. Ar ôl i chi wneud hyn, ticiwch y blwch ar waelod y sgrin i gadarnhau eich bod yn cytuno â hwy, fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Ar ôl i chi ddarllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau, **ticiwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â hwy.





Cliciwch ar y botwm **Nesaf** i fynd i’r dudalen ‘Cyflwyno’.





[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno

I gyflwyno eich Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Ffurflen Gais Mesurau Marchnata cliciwch ar y Botwm **Cyflwyno**.




Ar ôl i'ch cais gael ei gyflwyno, fe welwch y dudalen Cadarnhau Cyflwyno, a gallwch argraffu copi o'r dudalen hon ar gyfer eich cofnodion trwy ddewis y botwm **Printio'r Sgrin Hon**.




Yn awr, gallwch ddewis y botwm **Cyflwyno Dogfennau** er mwyn cael eich tywys yn syth at eich tudalen Negeseuon ar RPW Ar-lein, neu gallwch ddewis y botwm **Gadael**.

**Noder**: Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, ni allwch newid yr eitemau a ddewiswyd gennych.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Ar ôl Cyflwyno’r Cais yn Llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Ffurflen Gais am Fesurau Marchnata wedi’i llenwi yn cael ei hychwanegu i'r dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl "Dogfennau a dderbyniwyd gan RPW”. Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ati’n ofalus i wirio’r wybodaeth a gyflwynwyd. Pe bai unrhyw ran o’r wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y dewch o hyd i unrhyw wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu cysylltu â’n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Beth sy’n digwydd nesaf?

**Mae dau ganlyniad posibl i arfarniad cais llawn:**

1. Nid yw eich prosiect yn gymwys ac nid yw wedi’i gymeradwyo am ddyfarniad grant. Fe’ch hysbysir am y rhesymau pam nad oedd eich cais yn llwyddiannus trwy eich cyfrif RPW Ar-lein. Gallwch wneud cais am yr un prosiect eto os oes cyfnodau ymgeisio eraill ar gael yn y dyfodol (gan ddiwygio’r cais os ydych yn dymuno) **ond dim ond os nad ydych wedi dechrau ar y gwaith**.

2. Mae eich prosiect yn gymwys ac mae’n cael ei gymeradwyo am ddyfarniad. Bydd contract yn cael ei gyflwyno i chi trwy eich cyfrif RPW Ar-lein gan nodi telerau ac amodau’r grant. Gofynnir i chi ei dderbyn o fewn 30 niwrnod i ddangos eich bod yn cytuno â’r amodau a’r telerau hynny. Bydd y contract yn rhoi’r awdurdod i chi ddechrau ar y gwaith. Bydd angen i chi dderbyn neu wrthod cynnig y contract o fewn 30 diwrnod. Os na fyddwch wedi derbyn y contract o fewn y 30 niwrnod, caiff y contract ei dynnu’n ôl.

Yn ôl i'r Cynnwys

# Enwau Cyswllt

## RPW Ar-lein

Gallwch gael mynediad at wasanaeth RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth www.gateway.gov.uk, neu ar ôl i chi gofrestru ar gyfer gwasanaeth RPW Ar-lein gallwch gael mynediad ato trwy https://llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein. Os nad ydych wedi cofrestru ar RPW Ar-lein, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru ar wefan Llywodraeth Cymru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r **Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**. Gallwch gyflwyno ymholiadau trwy RPW Ar-lein ar unrhyw adeg.

## Mynediad i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig nad yw ein cyfleusterau yn darparu ar eu cyfer yn eich tyb chi, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, edrychwch ar wefan Llywodraeth Cymru.